CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor nos Lun 1 Hydref 2018**

Presennol: Cadeirydd: Cyng Iwan Davies. Cyngr: Mrs Eleri Davies, Mrs A Edwards, Ken Symmons, Hywel Davies, Mrs Nicky Redmond, S Kings, G Morgan

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Mrs L Holder.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**
Dim.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
*A180863* Ystafell wely arfaethedig i berson anabl, en suite a chysgodfan i gar a hefyd gyntedd a wal gardd flaen/ochr a gwaith cysylltiedig. Maes-yr-haf, Llechryd.
Cytunodd y Cyngor Cymuned i gefnogi'r cais.

*Cynlluniau Lle*
Dyddiadau ar gyfer:
Yr Ysgol: I'w cadarnhau o bosibl erbyn y Ffair ar 6 Rhagfyr.
Y Dafarn: Y landlord yn hapus i'r Cyngor ddod ar unrhyw brynhawn Sul.
Galw heibio: Byddai'r Clerc yn ceisio llogi Neuadd y Cwrwgl ar gyfer nos Iau ym mis Tachwedd.
Cinio'r Henoed: 3 Rhagfyr.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
*Man Chwarae Glannant: Y CS* Clive Davies i drefnu cyfarfod safle gyda'r Gymdeithas Tai.

*Materion a godwyd am CLIC:* Dywedwyd er ei bod yn bosibl rhoi adroddiad am CLIC nad oedd cyfleustra i weld hanes y drefn. Ar ôl i CSC ddosbarthu'r gwaith, roedd yr adroddiad yn cael ei gau heb ddim amserlen na gwybodaeth am gwblhau. Dywedodd y CS Clive Davies mai gwaith ar y gweill oedd y drefn ac y byddai'n mynd â'r sylwadau yn eu blaen.

Roedd wedi ymweld â safleoedd Corner Wood. Roedd wedi cynghori'r ymgeisydd am A180581 ynglŷn â CLEUD.

Roedd yn cadw llygad ar y cynnydd gyda'r safleoedd OPD. Soniodd am y fenter Twf Canolbarth Cymru a allai, gobeithio, ddod â miliynau o bunnau i Geredigion a bod Stryd Fawr Aberteifi wedi cyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth 'Great British High Street'. Gobeithiai y gallai Ceredigion fabwysiadu arwyddion cyflymdra tebyg i'r rheiny a ddefnyddir yng Nghaerfyrddin pan fydd gyrrwr yn gyrru'n rhy gyflym a'r arwyddion yn dangos cyflymdra'r cerbyd yn goch.

Dywedodd y Clerc y byddai Mrs Jane Davidson yn fwy na pharod i roi sgwrs i'r Cyngor am y datblygiadau OPD, a byddai'n fodlon i unrhyw Gynghorau lleol eraill sydd o bosibl yn edrych neu wedi edrych ar geisiadau i gael eu cynnwys. Y dyddiad a'r lle i gael eu trefnu a'u cylchredeg.

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn cofnodion 3.09.18 fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng Mrs N Redmond, a chytunwyd yn unfrydol.

**8. Materion yn Codi**

Dim.

**9. Cyllid a Gweinyddu**

| | Talai | Am | banc | |
|---|---|---|---|---|
| 1.10.18 | HMRC | | 4.40 | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y Cartref 25 postio 6.69 | 31.69 | |
| | SE Davies | Cymhwyso cyflog oherwydd codiad | 18.32 | |
| | Mr E Rees | Glanhau'r bloc toiledau / sbwriel | 285.00 | |
| | SLCC | Aelodaeth y Clerc | 41.25 | |
| | L J Services | Yr Aradr | 180.00 | |
| | SSE | Trydan yn y bloc toiledau | 42.59 | |
| 30.10.18 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |

Cytunwyd i roi cynnig ar gwtogi glanhau'r bloc toiledau i ddau ddiwrnod yr wythnos o ddiwedd mis Hydref. Byddid yn gofyn i Mr E Rees roi awgrym o gostau'r defnyddiau a ddefnyddid. Gofynnid iddo hefyd roi syniad ar ba ddiwrnodau roedd fel rheol yn glanhau er mwyn i'r Cynghorwyr allu monitro glendid a chyflwr y bloc rhwng pob sesiwn lanhau.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr E Rees GAN: Y Clerc

Cynigiwyd: Y Cyng E Davies, eiliwyd gan y Cyng H Davies, cytunwyd yn unfrydol.

*Cyfrifon Diwedd Blwyddyn*
Dywedodd y Clerc bod y dogfennau diwedd-blwyddyn wedi eu gosod ar-lein cyn y dyddiad cau ar 30 Medi, yn ôl y gofyn.

*Cyllideb*
Roedd y Clerc wedi cael dau ymholiad hyd yma ynglŷn â chontractau torri porfa.
Dywedwyd y byddai crynodeb o'r gyllideb lawn yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd yn barod ar gyfer trafodaethau'r gyllideb.

*Blychau blodau:*
Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris ar gyfer plannu blodau pansi gaeaf gan Mr J Morris.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr Morris GAN: Y Clerc

*Biniau*
Byddai CSC yn symud/gwella'r bin wrth yr afon.
Byddai'r Clerc yn archebu un bin yn unig ar gyfer y man chwarae (i'w anfon at y Cyng K Symmons fel y cytunwyd).
GWEITHREDU: Archebu bin GAN: Y Clerc

*Trwsio'r 'hen arwynebau chwarae'*
Cytunwyd na allai'r hen arwynebau gan eu trwsio gan y Cynghorwyr. Roedd y Clerc wedi cyfarfod â chontractiwr ar y safle a thrafodwyd gwahanol gynigion, o drwsio i adnewyddu. Byddid yn ceisio cael dyfynbrisiau ychwanegol.
GWEITHREDU: Ceisio cael dyfynbrisiau ychwanegol GAN: Y Clerc

*Enwau Lleoedd Llangoedmor*
Cytunwyd bod y Cyngor yn cefnogi defnyddio'r enw Croes-y-llan gyda chyplysnodau.
GWEITHREDU: Hysbysu'r Cyngor Sir gan: Y Clerc

*Dyddiadau Cyfarfodydd 2019*
Cytunwyd ar y dyddiadau drafft.
GWEITHREDU: Trefnu lleoliadau GAN: Y Clerc

*Gwaith Coed gan Western Power*
Roedd y Clerc wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Western Power ac wedi cytuno iddynt wneud ychydig waith ar goed ar eiddo'r Cyngor. Roedd angen y gwaith er mwyn cadw llinellau pŵer yn glir. Nid oedd cytundeb fforddfraint ar gael.

*Gwyliau'r Clerc*
Cytunwyd ar ddyddiadau gwyliau'r Clerc am fis Hydref a mis Rhagfyr.

*Hyfforddiant*
Roedd y Clerc wedi darparu gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddiant. Roedd ganddi eisoes y cymhwyster CiLCA. Y lefel nesaf oedd cwrs dwy flynedd rhan amser, sef Llywodraethiant Cymunedau, am gost o tua £6000. Roedd Cyngor Cymuned Llandudoch eisoes wedi mynegi diddordeb i'r Clerc gael y cymhwyster ac wedi gofyn a allai Llangoedmor ystyried rhoi rhywfaint o arian tuag at y costau.

Yn ogystal roedd y Clerc wedi nodi nifer o feysydd unigol lle hoffai ddiweddaru ei hyfforddiant pe bae'r cwrs priodol yn dod ar gael, os na fyddai'r cwrs Llywodraethiant Cymunedau yn bosibl.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon y manylion llawn am yr hyfforddiant at bawb er mwyn cael trafodaeth bellach yng nghyfarfod mis Tachwedd.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwyo Cyhoeddus**
*Dyddiadau Cerdded Llwybrau*
Cytunwyd i'r Cynghorwyr sydd â diddordeb gyfarfod ar 4 Tachwedd am 10.30am yn Neuadd y Cwrwgl.

*Llain Borfa wrth Preseli View*
GWEITHREDU: Gofyn am ddiweddariad gan y CS Clive Davies GAN: Y Clerc

Dywedwyd bod y palmant brau wrth Glannant nawr ar restr cynnal a chadw CSC.

Roedd adroddiad wedi ei wneud am yr arwydd gwallus wrth y tanc dŵr hefyd a hwnnw ar restr cynnal a chadw CSC gyda chontractwyr.

**11. Amwynderau**
*Ffin y parc ceir*
Yn parhau.

*Hysbysfwrdd yn y parc ceir*
Gan fod y mater yn mynd ymlaen ers misoedd, cytunwyd bod yr Hysbysfwrdd yn anniogel ac y dylid ei symud oddi yno.
GWEITHREDU: Trefnu ei symud oddi yno a thrwsio arwyneb y parc ceir GAN: Y Cyngr K Symmons a H Davies.

*Diffibrileiddiwr*
Roedd y blwch newydd wedi ei osod a'r Clerc wedi cysylltu â Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ynglŷn â phadiau a batri. Diolchodd i'r Cyng Mrs A Edwards am ei chymorth i gael y blwch newydd wedi'i osod.

*Drws y bloc toiledau*
Roedd y Cyng S Kings wedi edrych ar y drws a heb gael dim problem gydag e. Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi gallu rhoi eitemau yn y storfa heb ddim problemau.

*Arwynebau chwarae newydd*
Roedd rhai problemau o hyd gyda'r ymylon mewn mannau.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r gosodwr eto GAN: Y Clerc

*Llwybr tarmac*
Roedd y llwybr yn dal heb ei drwsio ac roedd y Cyngor wedi holi ynglŷn â chost gosod ymylon concrid.

*Yr Aradr*
Roedd yr aradr wedi'i gosod yn ddiogel.

**12. Prosiectau'r parhau**
Dim.

**13. Digwyddiadau**
*Gwasanaeth y Cofio*
Roedd y Clerc yn dal i weithio ar drefn y gwasanaeth gyda'r Parch. Alan Kent.
Cytunodd y Cadeirydd a'r Cyng G Morgan i ddarllen y llithiau.
Roedd y Cyng G Morgan yn dal i obeithio gallu dod o hyd i drympedwr ar gyfer y gwasanaeth.
Cadarnhaodd y Cyng Mrs N Redmond y gellid benthyca'r hen gadeiriau plastig i ddarparu seddi yn yr Eglwys. Trefniadau'r casgliad yn nes at y dyddiad.

*Goleuadau Nadolig*
Cytunwyd i'r goleuadau gael eu cynnau ar 28 Tachwedd am 6pm. Byddai plant yr ysgol yn bresennol i ganu carolau.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr Penny ynglŷn â'r goleuadau Nadolig. GAN: Y Cadeirydd.

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**15. Gohebiaeth / + gohebiaeth e-bost**
*Gohebiaeth a nodwyd:*
'Our Big NHS Change' www.hywelddahb.wales.nhs/hddchange
Rhybudd am sgam y Post Brenhinol – atal gwybodaeth sgam – gosod poster
https://beta.gov.wales/support-welsh-farming-after-brexit
Cyfarfod Eisteddfod 2020 ar 20 Medi
Cystadleuaeth 'Great British High Street' oddi wrth y CS Clive Davies
Roedd Mr Stefan Cartwright wedi cysylltu â CNC ynglŷn â'r chwyn Balsam wrth yr afon. CNC wedi cadarnhau na fyddent yn chwistrellu eleni ac y byddent yn ymchwilio i reoli heb chwistrellu yn y dyfodol.

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Nodwyd bod sbwriel wedi crynhoi wrth y bont.
GWEITHREDU: Adroddiad i CNC GAN: Y Clerc

Cadarnhawyd y byddai Cinio Nadolig yr Henoed yn digwydd ar 3 Rhagfyr.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 5.11.18**

*Gan nad oedd dim mater arall, daeth y cyfarfod i ben am 8.57pm.*